CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 13 Mai 2019**

Presennol: Cadeirydd: Y Cyng Ken Symmons: Cyngr Steve Kings, Mrs Amanda Edwards, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, Iwan Davies

Clerc

CS Clive Davies

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyng K Symmons. Diolchodd i'r Cyng I Davies am ei gyfnod o 18 mis yn Gadeirydd y Cyngor.

**2. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim.

**4. Materion Personol**

Dim.

**5. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng S Kings y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng Mrs A Edwards a chytunwyd.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

Nodwyd bod y cais am amlosgfa anifeiliaid anwes yn yr Hen Gapel wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cynllunio CSC.

*LDP2*

Dylai safleoedd posibl gael eu rhyddhau ar gyfer ymgynghori ym mis Mehefin 2019, ond roedd y cynllun darparu yn cynnwys cyfnod o 3 mis y naill ochr neu'r llall.

Ffigurau Allweddol a Thabl Diweddariad Sail Tystiolaeth (LDP). Nodwyd.

*Cynlluniau Lle – Dosbarthiad tai*

Roedd y Cyng Mrs N Redmond a'r Cyng S Kings wedi bod mewn noson hyfforddiant ar Gynlluniau Lle. Dywedodd y CS Clive Davies fod Cyngor Cymuned Llangoedmor wedi bod yn eithriadol o weithgar yn cymryd rhan ym mhrosiect de Ceredigion.

*Adroddiad y Cynghorydd Sirol*

Dywedodd y CS Clive Davies ei fod yn ymchwilio i wella a / neu ddarparu llwybrau troed ehangach ym mhentref Llechryd dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd. Roedd CSC wedi dweud bod y costau'n rhwystr.

Dywedodd bod dau ddigwyddiad i ddod yn Aberteifi i gyfrannu at arolwg cynllun lle Aberteifi a'r ardal o gwmpas. Darparodd gopïau i bawb a oedd yn bresennol.

Dywedodd fod 5 digwyddiad traffig wedi bod ar y B4570 a'i fod yn ymgynghori â CSC o ran gwella diogelwch ar y darn ffordd dan sylw.

Gobeithiai y byddai Cyngr a thrigolion lleol yn dod i gyfarfod am y cynllun gwytnwch ar 30.5.19.

Nodwyd bod trefniadau casglu sbwriel i newid gan gasglu sbwriel mewn bagiau duon bob 3 wythnos a chasglu gwydr wrth ymyl y drws.

Roedd 'Tyfu Canolbarth Cymru' yn dal i gael ei drafod, a gallai ddod â miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad i'r ardal pe bae'n mynd ymlaen.

Roedd wedi bod mewn digwyddiad lleol i geisio datblygu cyflogaeth ym Mlaenannerch.

Diolchwyd i'r Cyng Davies am ei amser ac yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Materion yn Codi**

Gofynnodd y Cyng S Kings a gâi fod yn bresennol pan fyddai archwiliad blynyddol y maes chwarae yn digwyddd.
GWEITHREDU: Trefnu archwiliad o'r maes chwarae gan gynnwys cost unrhyw dâl i'r Cyng Kings am fod yn bresennol GAN: Y Clerc

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.05.19 | HMRC | | 71.00 | | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25, ad-hawlio am westai mewn cinio | 31.96 | | |
| | Mr E Rees | Glanhau bloc toiledau | 200.00 | | |
| | Ambiwlans Awyr Cymru | Grant/rhodd ad137 | 200.00 | | |
| | Gofal Colled Cruse | Grant/rhodd ad137 | 200.00 | | |
| | Canolfan Therapi Ocsigen Aberteifi Cyf | Grant/rhodd ad137 | 200.00 | | |
| | Ailgylchu LAS Cyf | Bin Olwynion | 39.84 | DU | |
| | **Siec am daliad yswiriant i gael ei hychwanegu** | | | | |
| 30.05.19 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS | |
| | Cymhwyso cyflog y Clerc | | | | |
| | Bwriedir dileu'r archeb sefydlog a thalu â siec. | | | | |
| | | Archeb sefydlog wedi'i thalu: | | | 336.36 |
| | | Net a ddylai fod wedi'i dalu (newid cod treth) | | | 286.92 |
| | | **Clerc i ad-dalu** | | | **49.44** |

*Yswiriant*

Nodwyd y byddai prisio cadwyn y swydd yn costio £150. Cytunwyd I drefnu yswiriant ac yna ystyried ychwanegu'r Gadwyn am gost benodol o £600.

Cytunwyd i barhau i geisio cael prisiad yswiriant am y bloc toiledau ac adeilad y mileniwm.

*Dyfynbrisiau Yswiriant*

Ar ôl trafodaeth cytunwyd i yswirio gyda BHIB LTD am £1217.63. Gofynnwyd I'r Clerc holi a ellid trafod gostyngiad, ond o gofio'r amserlen i symud ymlaen i dalu (heb fod yn fwy na'r dyfynbris gwreiddiol) cyn y dyddiad adnewyddu, a rhoi gwybodaeth i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.
GWEITHREDU: Cysylltu â BHIB LTD GAN: Y Clerc

*Anfon Ffigurau Diwedd Blwyddyn o gwmpas*

Asesiad risg ac AGAR (dogfen i'w hanfon at yr Archwilwyr allanol) i gael eu cadarnhau yn y cyfarfod ar 3 Mehefin. Yr adroddiad oddi wrth yr archwilydd mewnol yn dal heb gyrraedd.

*Ariannu drwy Grant*
Cais yn lleol am ariannu taith gyda'r Sgowtiaid.
Ni chefnogwyd y cais gan y Cyngor.

Cais am gymorth ariannol i dorri'r borfa yn y fynwent yn Llechryd.
Cytunodd y Cyngor i gyfrannu £100.

*Arian grant ar gael*
Nodwyd bod Screwfix a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed yn rhedeg cynlluniau lleol i ariannu grantiau lleol.

*Ymholiad i Gyllid a Thollau EM heb ei ateb – Credyd ar gyfrif PAYE*
Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards i helpu'r Clerc.

Nodwyd y gallai fod angen i'r Cyngor adolygu'r wefan dan y gofynion Hygyrchedd ar gyfer gwefannau'r sector cyhoeddus – angen gwneud mwy o waith ymchwil.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Croesffordd Croes-y-llan*
Nodwyd yr ymateb gan Heddlu Dyfed-Powys am gofnodi ystadegau damweiniau. Rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2019 roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi delio â dim ond un ymholiad am Wrthdrawiad Traffig Ffyrdd wrth gyffordd Croes-y-llan. Gall fod mwy o ddamweiniau wedi bod ar y gyffordd ond nad oedd yr heddlu wedi cael gwybod amdanynt.

Gofynnwyd a oedd arwyddion 'ildiwch' o ochr Green Hill wrth y gyffordd.
GWEITHREDU: Holi GAN: Y Cyng S Kings

*Llain borfa wrth Preseli View*
Dim rhagor o wybodaeth hyd yma.

**10. Amwynderau**
*Meinciau'r Maes Chwarae*
Roedd yr arian grant llawn wedi dod oddi wrth CSC ond roedd wedi cyrraedd y cyfrif banc ar ôl diwedd y flwyddyn 18/19. Nodwyd bod y bwrdd mynediad i'r anabl yn anodd ei gyrraedd a chytunwyd i'w symud rywle arall.
Diolchwyd i bawb a oedd wedi helpu gyda'r prosiect.

*Arwynebau*
Nodwyd bod yr arian grant a gytunwyd gyda CSC wedi dod.

Diolchwyd i'r Cyng S Kings am barhau i archwilio'r maes chwarae bob wythnos.

**11. Prosiectau'n Parhau**
Mainc wrth yr Hen Eglwys.

**12. Digwyddiadau**
*Adolygu Cinio'r Cadeirydd*
Cytunodd pawb a fu'n bresennol ei fod yn ddigwyddiad dymunol iawn.

*Cynllun Gwytnwch*
Cyfarfod Cyffredinol i drigolion Llechryd a Llangoedmor ar 30 Mai am 7pm. Hysbysebwyd gan y Cyngor Cymuned a chroesawyd gan Paul Hendy, Rheolwr Gweithrediadau Adfer CSC.

*Cyfarfod i'r rheiny a oedd wedi dioddef gan y llifogydd*
Gohiriwyd gan fod nifer o'r rhai a ddioddefodd yn dal heb ddychwelyd i'r pentref.

*Eisteddfod 2020 – ffigur targed o £5000*
Dywedwyd y byddai aelod o'r pwyllgor ariannu ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn dod i gyfarfod cyhoeddus yn Llechryd gyda'r nod o ffurfio pwyllgor codi arian ar gyfer yr ardal.
GWEITHREDU: Trefnu ystafell yn Neuadd y Cwrwgl ac anfon gwybodaeth allan am y cyfarfod ar 10 Mehefin am 7.30pm. GAN: Y Clerc

*Gwasanaeth y Cofio*
Roedd y Clerc wedi siarad â'r Parch. A Kent, a oedd wedi cael ymateb da am y gwasanaeth yn Neuadd y Cwrwgl, a hoffai awgrymu, os byddai'r gwasanaeth yn cael ei gynnal eleni, y dylid defnyddio'r un lleoliad.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Parch. Kent i gytuno ar y trefniadau. GAN: Y Clerc

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**
Nodwyd gohebiaeth:
Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Cytunwyd i ofyn i'r ysgol drefnu cystadleuaeth i ddylunio posteri am faw cŵn. Byddai'r Cyngor yn darparu dwy wobr.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Ysgol GAN: Y Cadeirydd.

Nodwyd bod yr hen fin sbwriel yn dal wrth yr arhosfan bysiau yn Preseli View.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Dywedodd y Clerc na ellid cysylltu â hi ar 16/17 Mai.

Gofynnwyd i'r Cadeirydd a fyddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn cael caban BT hen ffasiwn. Ar ôl trafodaeth cytunwyd nad oedd yn ddewis y byddai'r Cyngor yn dymuno'i dderbyn.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3.06.19**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm.*